Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD / ADRODDIAD

**DIBEN: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD** DLL173

**Amseru: Brys - cyn dechrau'r flwyddyn ariannol 2020/21**

**Teitl: Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2020/21**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae'r ddogfen hon yn nodi Strategaeth Rheoli Trysorlys CHTh, gan gynnwys Dangosyddion Cynghorus, Gofyniad Ariannu a pholisi Darpariaeth Refeniw Lleiaf 2020/21 yn dilyn craffu yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio ar 18 Mawrth 2020.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi ystyried pa un ai a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu niweidiol ai peidio yn y mater hwn, ac yn cymryd y penderfyniad arfaethedig mewn cydymffurfiaeth ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn

**Dyddiad: 18 Mawrth 2020**

**DIBEN:** CRAFFU'R CYD-BWYLLGOR ARCHWILIO

**Amseru: Cyn dechrau blwyddyn ariannol 2020/21**

**Teitl:** Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2020/21

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref yn datgan bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn uniongyrchol gyfrifol am fenthyciadau, buddsoddiadau ac am fenthyca arian. Dylai Prif Swyddog Ariannol y CHTh benderfynu pa fuddsoddiadau y dylid eu gwneud yn lleol a chymeradwyo unrhyw fenthyciadau. Mae penderfyniadau ar Fenthyca ac Ariannu Cyfalaf hefyd yn ffurfio rhan o gyfrifoldeb y CHTh.

Trwy reoliadau ariannol y cytunir arnynt yn lleol a Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol, gall staff Prif Swyddogion Ariannol yr Heddlu reoli Benthyciadau a Buddsoddiadau o ddydd i ddydd, yn unol â'r polisïau cymeradwy.

Dylid trefnu'r holl fenthyciadau a buddsoddiadau yn unol ag arfer gorau fel yr ymgorfforir yng Nghod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys a dylai'r holl fenthyciadau yr ymgymerir â hwy gydymffurfio â Chod Ariannu Cyfalaf o fewn Awdurdodau Lleol darbodus CIPFA.

Mae Cod Ymarfer Rheoli'r Trysorlys o fewn Gwasanaethau Cyhoeddus Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn gofyn am bennu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (TMSS) yn flynyddol. Mae'r TMSS hefyd yn cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol sy'n ofyniad yng Nghanllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r polisïau a'r gweithdrefnau y mae'r CHTh wedi'u sefydlu ar gyfer bodloni'r gofynion statudol hyn ar gyfer y flwyddyn 2020/21.

**Argymhelliad:**

Er ystyriaeth a sylw gan y Cyd-bwyllgor Archwilio.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Heddlu Police DYFED-POWYS

**Adroddiad Prif Swyddog Cyllid CHTh**

**Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Pholisi Buddsoddi**

## 1. Diben yr Adroddiad

*Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus* y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth; mae *rhifyn Cod Ymarfer 2017* (cod CIPFA) yn gofyn i'r CHTh gymeradwyo strategaeth rheoli'r trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

Rheoli'r Trysorlys yw rheoli llif arian, benthyciadau a buddsoddiadau CHTh a'r risgiau cysylltiedig. Mae'r CHTh wedi buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly mae'n agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli cyllid a fuddsoddwyd, ac effaith newidiadau yn y gyfradd llog ar refeniw. Mae adnabod, monitro a rheoli risg ariannol yn llwyddiannus yn ganolog felly i reolaeth ariannol ddoeth CHTh.

Mae rheoli risg trysorlys gyda'r CHTh yn cael ei gynnal o fewn fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Rheoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus Cyfrifyddiaeth: rhifyn Cod Ymarfer 2017 (cod CIPFA) sy'n gofyn i'r CHTh gymeradwyo strategaeth rheoli'r trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Yn ogystal, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) ganllawiau diwygiedig ar fuddsoddiadau awdurdodau lleol ym mis Tachwedd 2019 yn mynnu bod CHTh yn cymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni'r ymrwymiadau cyfreithiol a osodwyd ar y CHTh dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i roi ystyriaeth i God CIPFA a Chanllaw LlC.

Strategaeth ddiwygiedig: Yn unol â Chanllawiau LlC, gofynnir i'r Awdurdod gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys diwygiedig pe bai'r tybiaethau y mae'r adroddiad wedi'i selio arnynt yn newid yn sylweddol. Byddai amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, newid mawr annisgwyl mewn cyfraddau llog, yn rhaglen gyfalaf yr Awdurdod neu yn lefel ei falans buddsoddi, neu unrhyw golled faterol yng ngwerth teg buddsoddiad nad yw'n fuddsoddiad ariannol fel rhan o broses paratoi ac archwilio'r cyfrifon diwedd flwyddyn.

Dylai Prif Swyddog Ariannol CHTh weithredu a monitro polisïau a gweithdrefnau rheoli'r trysorlys yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau proffesiynol eraill.

## 2. Cyd-destun Allanol

### 2.1 Cefndir Economaidd

Bydd cynnydd y DU o ran trafod ei hymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd, ynghyd â'i threfniadau masnachu yn y dyfodol, yn parhau'n ddylanwad mawr ar strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2020/21.

Cofrestrodd Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr y DU ar gyfer mis Medi 1.7% o'r naill flwyddyn i'r llall, sydd heb newid o'r mis blaenorol. Cododd chwyddiant craidd, sydd ddim yn cynnwys cydrannau mwy cyfnewidiol, i 1.7% o 1.5% ym mis Awst. Dangosodd y data marchnad llafur diweddaraf ar gyfer y tri mis hyd Awst 2019 fod y gyfradd anghyflogaeth wedi dringo'n ôl i 3.9% tra bod y gyfradd gyflogaeth yn 75.9%, sydd fymryn yn is na ffigurau diweddar a oedd yn dangos y nifer uchaf erioed o bobl mewn cyflogaeth. Y brif gyfradd dwf 3 mis gyfartalog ar gyfer cyflog oedd 3.8% ym mis Awst wrth i gyflogau barhau i godi gan bwyll. Mewn termau real, ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant, cynyddodd twf cyflog 1.9%.

Cododd cynnyrch domestig gros o 0.3% yn nhrydydd chwarter 2019 o -0.2% yn y tri mis blaenorol, gyda'r gyfradd flynyddol yn syrthio ymhellach islaw ei gyfradd duedd i 1.0% o 1.2%. Ychwanegodd gwasanaethau ac adeiladwaith yn gadarnhaol at dyfiant, o 0.6% a 0.4% yn ôl eu trefn, tra bod cynhyrchiad yn wastad ac amaethyddiaeth yn cofnodi cwymp o 0.2%. Gan edrych ymlaen, mae Adroddiad Polisi Ariannol Banc Lloegr (yr Adroddiad Chwyddiant Chwarterol gynt) yn rhagweld y bydd twf economaidd yn gwella yn ystod 2020 wrth i ansicrwydd mewn perthynas â gadael yr UE chwalu a rhoi hwb i fuddsoddi mewn busnesau gan helpu cynnyrch domestig gros i gyrraedd 1.6% yn Ch4 2020, 1.8% yn Ch4 2021 a 2.1% yn Ch4 2022.

Cynhaliodd Banc Lloegr Gyfradd Fanc i 0.75% ym mis Tachwedd yn dilyn pleidlais 7-2 gan y Pwyllgor Polisi Ariannol. Serch atal cyfraddau, cadarnhaodd aelodau'r Pwyllgor Polisi Ariannol eu bod yn barod i dorri cyfraddau llog yn ôl yr angen pe bai ansicrwydd ynghylch gadael yr UE yn parhau, neu fod dim modd adfer twf byd-eang. Ar ben hynny, mae'r adolygiadau ar i lawr i rai o'r rhagamcaniadau twf yn yr Adroddiad Polisi Ariannol yn awgrymu y gallai'r Pwyllgor fod yn llai argyhoeddedig yn awr o'r angen i gynyddu cyfraddau, hyd yn oed os oes dêl o ran gadael yr UE.

Mae twf yn Ewrop dal yn feddal, wedi'i yrru gan economi Almaenaidd sy'n gwanhau a welodd cynnyrch domestig gros yn syrthio -0.1% yn Ch2. Disgwylir iddo lithro i ddirwasgiad technegol yn Ch3. Roedd chwyddiant parth yr ewro yn 0.8% o'r naill flwyddyn i'r llall ym mis Medi, sy'n is o lawer na tharged Banc Canolog Ewrop o 'yn is, ond yn agos at 2%' ac sy'n arwain at y banc canolog yn cynnal ei brif gyfradd llog ar 0% a thorri'r gyfradd cyfleuster cadw i -0.5%. Yn ogystal â chadw lefelau llog ar lefelau isel iawn, cyhoeddodd Banc Canolog Ewrop y byddai'n ailddechrau ei raglen esmwytho feintiol o fis Tachwedd.

Yn yr UD, dechreuodd y Banc Cronfa Ffederal esmwytho polisi ariannol eto yn 2019 fel rhagymosodiad yn erbyn twf economaidd sy'n arafu yn y DU ac yn fyd-eang ar gefn y rhyfel masnach parhaus â Tsieina. Yn ei gyfarfod diwethaf, torrodd y Banc Cronfa Ffederal gyfraddau i'r amrediad 1.50-1.75% ac mae marchnadoedd ariannol yn disgwyl llacio pellach i'r polisi ariannol yn 2020. Arafodd cynnyrch domestig gros y DU i 1.9% yn flynyddol yn Ch3 o 2.0% yn Ch2.

## 2.2 Marchnadoedd Ariannol

Fe wnaeth buddsoddwyr ymrafael ag amrediad o bryderon byd-eang: arafu economaidd yn Tsieina, tensiynau masnach sy'n cynyddu rhwng yr UD a Tsieina, pris olew sy'n sylweddol is, allbwn ardal Ewro sy'n arafu, ac wrth gwrs, yr ansicrwydd sy'n parhau o gwmpas gadael yr UE. Roedd mis Rhagfyr yn fis i'w anghofio o ran perfformiad dosbarthiadau asedau sy'n cario mwy o risg, sef ecwitïau yn fwy nodedig. Dychwelodd mynegai can cwmni'r FT (arwydd da o deimlad corfforaethol byd-eang) -8.8% gan dybio bod rhandaliadau wedi'u hailfuddsoddi; mewn termau pris pur, syrthiodd tua 13%. Ond ehangodd ymlediadau ar fondiau corfforaethol hefyd, gan

adlewyrchu pryderon am amodau economaidd caletach sydd o'n blaenau a galluoedd corfforaethau i wasanaethu eu rhwymedigaethau dyled.

Parhaodd cynnyrch gilt i arddangos anweddolrwydd sylweddol dros y cyfnod ar gefn ansicrwydd gwleidyddol ac economaidd parhaus yn y DU ac Ewrop. Ar ôl codi i 1.30% ym mis Hydref, adenillodd giltiau eu statws hafan ddiogel ym mis Rhagfyr - syrthiodd y cynnyrch gilt meincnod 5 mlynedd mor isel â 0.82% ac roedd cwympau tebyg yn y giltiau 10 mlynedd ac 20 mlynedd dros yr un cyfnod, gan gwympo o 1.59% i 1.06% ac o 2.05% i 1.62%. Parhaodd y Gyfradd Fanc uwch i wthio cyfraddau marchnadoedd arian i fyny. Ar gyfartaledd, roedd cyfraddau LIBID 1 mis, 3 mis a 12 mis yn 0.58%, 0.76% ac 1.03% yn ôl eu trefn yn ystod y cyfnod.

## 2.3 Cefndir Credyd a Rhagolwg Cyfradd Llog

Mae amodau credyd ar gyfer banciau mwy'r DU wedi aros yn gymharol hynaws dros y flwyddyn ddiwethaf. Gohiriwyd ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd deirgwaith yn 2019, ac er bod rhywfaint o bryder o hyd am arafu economaidd hollfydol, nid yw hyn yn amlwg eto mewn unrhyw faterion credyd ar gyfer banciau. Yn y cyfamser, mae'r diwygiad bancio ar ôl yr argyfwng ariannol wedi'i gwblhau i raddau helaeth, gyda'r banciau sydd newydd eu diogelu wedi'u mewnosod yn y farchnad.

Cyrhaeddodd banciau herio'r penawdau newyddion yn 2019 gyda banc Metro a banc TSB ill dau'n dioddef cyhoeddusrwydd gwael a gostyngiad yn nifer y cwsmeriaid.

Wrth edrych tua'r dyfodol, y potensial ar gyfer dim dêl wrth adael yr Undeb Ewropeaidd a/neu ddirwasgiad hollfydol yw'r peryglon mwyaf sy'n wynebu banciau a chymdeithasau adeiladu o hyd yn 2020/21 a chynghorir ymagwedd ofalus tuag at adneuon banc.

Mae Arlingclose, ymgynghorydd rheoli trysorlys yr Awdurdod, yn rhagweld y bydd cyfradd y banc yn aros ar 0.75% tan ddiwedd 2022. Ystyrir bod y peryglon i'r rhagolwg hwn wedi'u pwyso'n sylweddol i'r ochr dywyll, yn arbennig o ystyried yr etholiad cyffredinol sydd ar fin cael ei gynnal, yr angen ar gyfer mwy o eglurder ynghylch gadael yr UE, a'r arafu economaidd sy'n parhau ar draws y byd. Ar ôl nodi o'r blaen y gall fod angen i gyfraddau llog godi pe bai cytundeb yn cael ei gytuno o ran gadael yr UE, dywedodd Banc Lloegr yn ei Adroddiad Polisi Ariannol ym mis Tachwedd a'i benderfyniad o ran cyfradd y banc (pleidlais 7-2 i gynnal cyfraddau) bod y Pwyllgor Polisi Ariannol nawr yn credu bod hyn yn llai tebygol, hyd yn oed pe bai cytundeb.

Mae cynnyrch gilt wedi codi, ond yn parhau ar lefelau isel, ac yn seiliedig ar ragamcaniadau Arlingclose o ran cyfraddau llog, ychydig iawn o gynnydd a ddisgwylir o'r lefelau presennol. Yr achos canolog yw i gynnyrch gilt 10 mlynedd ac 20 mlynedd godi i tua 1.00% ac 1.40% yn ôl eu trefn dros y gorwel amser, gyda risgiau sydd yn gytbwys yn gyffredinol i'r ochr olau a'r ochr dywyll. Fodd bynnag, mae anweddolrwydd tymor byr yn deillio o ddigwyddiadau economaidd a gwleidyddol dros y cyfnod bron yn sicrwydd.

Ceir rhagamcan economaidd a chyfradd llog mwy manwl gan Arlingclose yn ***Atodiad A***.

I ddiben gosod y gyllideb, tybiwyd y bydd buddsoddiadau rheoli trysorlys newydd yn cael eu gwneud ar gyfradd gyfartalog o 0.7%.

## 2.4 Cyd-destun Lleol

Ar 31 Ionawr 2020, roedd y Comisiynydd yn dal £1.835 miliwn o fenthyciadau ac £16.432 miliwn o fuddsoddiadau. Mae hyn wedi'i egluro mewn mwy o fanylder yn ***Atodiad D***.

Isod, dangosir effaith y Rhaglen Gyfalaf ar y sefyllfa fantolen a newidiadau o flwyddyn i flwyddyn.

### Gwariant Cyfalaf ac Ariannu ym mhob blwyddyn

| Gwariant Cyfalaf a Chyllido | Amcangyfrif 2019/20 | Amcangyfrif 2020/21 | Amcangyfrif 2021/22 | Amcangyfrif 2022/23 | Amcangyfrif 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£mil** | **£mil** | **£mil** | **£mil** | **£mil** |
| Prosiectau Ystadau | 1,364 | 10,774 | 17,500 | 5,100 | 1,100 |
| Cerbydau / Cwch | 1,035 | 1,085 | 1,050 | 1,050 | 1,050 |
| TG a Chynlluniau Eraill | 3,576 | 4,364 | 4,070 | 6,423 | 2,734 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **5,976** | **16,223** | **22,620** | **12,573** | **4,884** |
| | | | | | |
| Arian Grant | 243 | 182 | - | - | - |
| Gofyniad Benthyca | 1,364 | 10,774 | 20,503 | 10,338 | 2,149 |
| Grantiau Cyfalaf | 85 | 85 | 85 | 85 | 85 |
| Cyfraniad o'r Cyfrif Refeniw | 500 | 850 | 1,600 | 2,100 | 2,600 |
| Cronfeydd wrth gefn Eraill | 413 | 170 | 150 | - | - |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,787 | - | 250 | 50 | 50 |
| Cronfa Gyfalaf Wrth Gefn | 1,584 | 4,162 | 32 | - | - |
| **Cyfanswm Cyllido** | **5,976** | **16,223** | **22,620** | **12,573** | **4,884** |

### Gwariant Cyfalaf a Chyllido cronnus (Mantolen)

| **Gwariant Cyfalaf a Chyllido** | **Amcangyfrif 2019/20** | **Amcangyfrif 2020/21** | **Amcangyfrif 2021/22** | **Amcangyfrif 2022/23** | **Amcangyfrif 2022/23** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£mil** | **£mil** | **£mil** | **£mil** | **£mil** |
| Prosiectau Ystadau | 1,364 | 12,138 | 29,638 | 34,738 | 35,838 |
| Cerbydau / Cwch | 1,035 | 2,120 | 3,170 | 4,220 | 5,270 |
| TG a Chynlluniau Eraill | 3,576 | 7940 | 12,010 | 18,433 | 21,167 |
| Cyfanswm Gwariant | **5,976** | **22,199** | **44,819** | **57,392** | **62,276** |
| | | | | | |
| Arian Grant | 243 | 425 | 425 | 425 | 425 |
| Gofyniad Benthyca | 1,364 | 12,138 | 32,641 | 42,979 | 45,128 |
| Grantiau Cyfalaf | 85 | 170 | 255 | 340 | 425 |
| Cyfraniad o'r Cyfrif Refeniw | 500 | 1350 | 2,950 | 5,050 | 7,650 |
| Cronfeydd wrth gefn Eraill | 413 | 583 | 733 | 733 | 733 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,787 | 1,787 | 2,037 | 2,087 | 2,137 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyfalaf Wrth Gefn | 1,584 | 5,746 | 5,778 | 5,778 | 5,778 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **5,976** | **22,199** | **44,819** | **57,392** | **62,276** |

Mae'r Gofynion Cyllido Cyfalaf (CFR) yn mesur yr angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf, tra mai'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a'r cyfalaf gweithio yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Strategaeth bresennol y Comisiynydd yw defnyddio ei adnoddau ei hun yn lle benthyca allanol lle bo'n bosibl. Weithiau, gelwir hyn yn fenthyca mewnol.

Mae gan y Comisiynydd CFR sy'n cynyddu oherwydd y Rhaglen Gyfalaf. Gan hynny, bydd angen benthyca hyd at £45.13 miliwn dros y cyfnod rhagweld.

Mae Cod Materion Ariannol CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol yn argymell y dylai dyled CHTh fod yn is na'i CFR uchaf a ragwelir dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r premiymau ad-dalu ar y dyledion Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus hyn yn waharddol ac felly mae'n fwy cost effeithiol i barhau i gario'r benthyciadau hyn yn hytrach na'u setlo'n gynnar. Yn ogystal, mae'r CHTh yn derbyn cyfraniad grant tuag at gostau ariannu dyledion cyn 1990 sy'n 51% o gost y taliadau llog tybiannol sy'n weddill a'r lleiafswm ad-daliad refeniw.

## 3. Strategaeth Benthyca

Ar hyn o bryd, mae'r CHTh yn dal £1.835 miliwn o fenthyciadau, sef gostyngiad o £0.2 miliwn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf blynyddoedd blaenorol.

O ystyried y toriadau sylweddol i wariant cyhoeddus, ac yn arbennig i gyllid llywodraeth leol, mae strategaeth fenthyca CHTh yn parhau i fynd i'r afael â'r prif fater o fforddiadwyedd heb gyfaddawdu sefydlogrwydd tymor hirach y portffolio dyled. Â chyfraddau llog tymor byr yn is o lawer ar hyn o bryd na chyfraddau tymor hir, mae'n debygol o fod yn fwy cost effeithiol yn y tymor byr i ddefnyddio adnoddau mewnol neu gael benthyciad tymor byr.

Drwy wneud hyn, mae CHTh yn medru lleihau costau benthyca net (er waethaf incwm buddsoddi anochel) a lleihau'r perygl cyffredinol i'r trysorlys. Bydd manteision benthyca tymor byr / mewnol yn cael eu monitro'n rheolaidd yn erbyn y potensial ar gyfer tynnu costau ychwanegol drwy ohirio benthyca i flynyddoedd dilynol pan ragwelir y bydd cyfraddau benthyca tymor hir yn codi rhywfaint. Bydd Arlingclose yn cynorthwyo CHTh â'r 'cost cario' hwn a dadansoddi adennill costau. Gall ei allbwn bennu pa un ai a yw CHTh yn benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau sefydlog tymor hir yn 2020/21 gyda golwg ar gadw costau llog yn y dyfodol yn isel, hyd yn oed os yw hyn yn achosi cost ychwanegol yn y tymor byr.

Fel arall, gallai CHTh drefnu benthyciadau sy'n dechrau yn y dyfodol yn ystod 2020/21, lle mae'r gyfradd llog wedi'i bennu ymlaen llaw, ond derbynnir yr arian mewn blynyddoedd i ddod. Byddai hyn yn galluogi cyflawni sicrwydd cost heb ddioddef cost cario yn y cyfnod cysylltiol.

Yn ogystal, gall CHTh fenthyg benthyciadau tymor byr pellach er mwyn darparu ar gyfer prinder llif arian nas cynlluniwyd.

### Ffynonellau

Y ffynonellau sydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer benthyciadau hirdymor a thymor byr yw:

- Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ac unrhyw gyrff olynol
- unrhyw sefydliad a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddi (gweler isod)
- unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu arall sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu yn y DU
- cronfeydd pensiwn sectorau cyhoeddus a phreifat y DU (ac eithrio Cronfa Bensiwn Dyfed-Powys)
- buddsoddwyr bondiau yn y farchnad gyfalaf
- cwmnïoedd diben arbennig a grëwyd i alluogi materion bondiau awdurdod lleol
- Yn ogystal, gellir codi cyllid cyfalaf drwy'r dulliau canlynol nad ydynt yn fenthyciadau, ond y gellir eu cyfrif fel rhwymedigaethau dyledion eraill:
- prydlesi gweithredu a chyllid
- hurbwrcasu
- gwerthu ac adlesu

Mae'r CHTh eisoes wedi codi ei holl fenthyca tymor hir o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ond mae'n parhau i ymchwilio i ffynonellau cyllid eraill, megis benthyciadau awdurdod lleol, a allai fod ar gael am gyfraddau mwy ffafriol.

<u>Ailamserlennu dyled</u>

Mae'r PWLB yn galluogi CHTh i ad-dalu benthyciadau cyn aeddfedrwydd, a naill ai talu premiwm neu dderbyn gostyngiad yn unol â fformiwla benodol sy'n seiliedig ar gyfraddau llog presennol. Gall benthycwyr eraill fod yn barod i drafod telerau ad-dalu cynnar hefyd. Gallai CHTh gymryd mantais o hyn a disodli rhai benthyciadau â benthyciadau newydd, neu ad-dalu benthyciadau heb disodli, lle y disgwylir i hyn arwain at arbediad cost cyffredinol neu ostyngiad mewn risg.

## 4. Strategaeth Fuddsoddi

Mae gan y CHTh gronfeydd sylweddol wedi eu buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant a'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddiadau'r CHTh wedi amrywio rhwng £10 miliwn a £27 miliwn. O ganlyniad i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn er mwyn ariannu'r buddsoddiad rhaglen gyfalaf, disgwylir i falansau leihau yn 2020/21.

Fel arfer, ni ystyrir benthyciadau i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus lleol a phryniannau eiddo buddsoddi yn fuddsoddiadau trysorlys.

**Amcanion**: Yn unol â Chod CIPFA a Chanllawiau LlC mae'n ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei arian trysorlys yn ddarbodus, ac i roi diogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau o flaen ceisio cael y gyfradd uchaf o enillion, neu log. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw taro cydbwysedd priodol rhwng risg ac enillion, lleihau'r risg o wneud colledion yn sgil diffygdaliadau a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi sy'n anaddas o isel. Lle y disgwylir buddsoddi balansau am fwy na blwyddyn, bydd yr Awdurdod yn anelu i sicrhau cyfanswm elw sy'n gydradd â'r gyfradd chwyddiant gyffredinol neu'n uwch na hynny er mwyn cynnal pŵer gwario'r swm a fuddsoddwyd.

**Cyfraddau llog negyddol:** Os yw'r DU yn mynd mewn i ddirwasgiad yn 2020/21, mae siawns bach y gallai Banc Lloegr osod ei gyfradd banc ar sero neu lai, sy'n debygol o fwydo trwyddo i gyfraddau llog negyddol ar bob dewis buddsoddi tymor byr risg isel. Mae'r sefyllfa hon eisoes yn bodoli mewn sawl gwlad arall yn Ewrop. Os digwydd hynny, mesurir diogelwch fel derbyn y swm y cytunwyd arno o dan gontract adeg aeddfedrwydd, er y gallai hyn fod yn llai na'r swm a fuddsoddwyd yn wreiddiol.

**Strategaeth:** O ystyried y risg cynyddol a'r enillion isel iawn sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau banc tymor byr ansicredig, mae'r CHTh yn bwriadu arallgyfeirio ymhellach i ddosbarthiadau o asedau sy'n fwy diogel ac/neu'n cynnig enillion uwch yn ystod 2020/21. Bydd yr arallgyfeirio hyn yn cynrychioli parhad y strategaeth newydd a fabwysiadwyd yn 2019/20.

### 4.1 Gwrthbartïon Cymeradwy

Gall y CHTh fuddsoddi'r arian sydd ganddo dros ben gydag unrhyw un o'r mathau o wrthbartïon a restrir yn nhabl 2 isod yn amodol ar y terfynau arian parod (fesul gwrthbarti) a'r terfynau amser a ddangosir.

Ni fydd cyfanswm y buddsoddiadau sicredig ac ansicredig mewn unrhyw fanc yn fwy na'r terfynau arian parod ar gyfer buddsoddiadau sicredig.

Bydd terfynau gwrthbartïon yn cael eu hadolygu'n chwarterol a'u diwygio os bydd angen yn ddibynnol ar falansau buddsoddiadau.

**Tabl 2: Gwrthbartïon Buddsoddi Cymeradwy a'u Terfynau**

| Cyfradd Credyd | Banciau/ Cymdeithasau Adeiladu Ansicredig | Banciau Sicredig | Y Llywodraeth | Cyrff Corfforaethol | Darparwyr Cofrestredig |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth y DU** | Amh. | Amh. | £ Dim terfyn<br>50 mlynedd | Amh. | Amh. |
| **AAA** | £2 filiwn<br>5 mlynedd | £3 miliwn<br>20 mlynedd | £3 miliwn<br>50 mlynedd | £1 miliwn<br>20 mlynedd | £1 miliwn<br>20 mlynedd |
| **AA+** | £2 miliwn<br>5 mlynedd | £3 miliwn<br>10 mlynedd | £3 miliwn<br>25 mlynedd | £1 miliwn<br>10 mlynedd | £1 miliwn<br>10 mlynedd |
| **AA** | £2 miliwn<br>4 mlynedd | £3 miliwn<br>5 mlynedd | £3 miliwn<br>15 mlynedd | £1 miliwn<br>5 mlynedd | £1.5 miliwn<br>10 mlynedd |
| **AA-** | £2 filiwn<br>3 blynedd | £3 miliwn<br>4 mlynedd | £2 filiwn<br>10 mlynedd | £1 miliwn<br>4 mlynedd | £1.5 miliwn<br>10 mlynedd |
| **A+** | £2 filiwn<br>2 flynedd | £3 miliwn<br>3 blynedd | £1 miliwn<br>5 mlynedd | £0.5 miliwn<br>3 blynedd | £1.0 miliwn<br>5 mlynedd |
| **A** | £2 filiwn<br>13 mis | £3 miliwn<br>2 flynedd | £1 miliwn<br>5 mlynedd | £0.5 miliwn<br>2 flynedd | £1.0 miliwn<br>5 mlynedd |
| **A-** | £2 filiwn<br>6 mis | £3 miliwn<br>13 mis | £1 miliwn<br>5 mlynedd | £0.5 miliwn<br>13 mis | £1.0 miliwn<br>5 mlynedd |
| **Dim** | £1 miliwn<br>6 mis | Amh. | £2 filiwn<br>5 mlynedd | Dim | Dim |
| **Cronfeydd Cyfun (dim mwy na £3 miliwn fesul cronfa) a dim mwy na 50% o gyfanswm y buddsoddiadau** | | | | | |

Arf buddsoddi amgen sydd wedi dod ar gael yw Cytundebau Prynu o Chwith. Mae ein Hymgynghorwyr Trysorlys wedi dweud bod y rhain yn cael eu hystyried o dan y categori "banciau sicredig".

Ceir diffiniadau o'r derminoleg uchod yn Atodiad C.

**Asesiad Risg a Chyfraddau Credyd**

Bydd ymgynghorwyr trysorlys y CHTh yn sicrhau a monitro statws credyd, a byddant hefyd yn tynnu sylw at unrhyw newidiadau wrth iddynt ddigwydd. Os bydd statws credyd endid yn cael ei lawr-raddio i lefel lle y mae'n methu â bodloni'r meini prawf cymeradwy ar gyfer buddsoddi, yna:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd,
- os oes modd galw buddsoddiadau cyfredol yn ôl neu eu gwerthu heb gost, fe wneir hynny, a
- rhoddir ystyriaeth fanwl i alw yn ôl neu werthu unrhyw fuddsoddiadau cyfredol eraill gyda'r gwrthbarti dan sylw.

Os bydd asiantaeth graddio statws credyd yn cyhoeddi bod statws credyd yn cael ei adolygu gyda golwg ar ei lawr-raddio (a elwir hefyd yn adolygiad statws negyddol neu adolygiad credyd negyddol), ac y gallai syrthio o dan y meini prawf cymeradwy ar gyfer graddio, dim ond buddsoddiadau y gellir eu cael yn ôl ar y diwrnod gwaith nesaf a wneir gyda'r sefydliad hwnnw hyd nes bydd canlyniad yr adolygiad yn cael ei gyhoeddi. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol ar gyfer rhagolygon negyddol sy'n awgrymu tuedd hirdymor yn hytrach na newid statws sydd ar fin digwydd.

## 4.3 Gwybodaeth arall am Ddiogelwch Buddsoddiadau

Mae'r CHTh yn deall bod statws credyd yn rhagfynegydd da, ond nid perffaith, o ddiffygdalu mewn perthynas â buddsoddiad. Felly rhoddir ystyriaeth fanwl i unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael am ansawdd credyd y sefydliadau y mae'n buddsoddi ynddynt, gan gynnwys prisiau cyfnewid yn achos credyd diffygiol, datganiadau ariannol, gwybodaeth am gefnogaeth posib gan y llywodraeth ac erthyglau yn y wasg ariannol. Ni wneir buddsoddiadau gyda sefydliad os oes amheuon sylweddol ynghylch ansawdd ei gredyd, hyd yn oed os ydynt yn cwrdd â'r meini prawf statws credyd.

Pan fydd dirywiad yng nghyflwr y farchnad ariannol yn effeithio ar deilyngdod credyd sefydliadau, fel y digwyddodd yn 2008 a 2011, ni fydd hyn fel arfer yn cael ei adlewyrchu yn eu statws credyd, ond gellir ei weld mewn mesurau marchnad eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd yr Awdurdod yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny sydd ag ansawdd credyd uwch ac yn lleihau hyd pennaf ei fuddsoddiadau er mwyn cynnal y lefel ddiogelwch ofynnol. Bydd ehangder y cyfyngiadau hyn yn unol ag amodau cyffredinol y farchnad ariannol. Os bydd y cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol gydag ansawdd credyd uchel ar gael ar gyfer buddsoddi arian yr Awdurdod, yna bydd y gweddill yn cael ei adneuo gyda Llywodraeth y DU drwy'r Swyddfa Rheoli Dyledion, neu'n cael ei fuddsoddi mewn biliau trysorlys y llywodraeth er enghraifft, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn achosi gostyngiad yn lefel yr incwm a geir o'r buddsoddiad, ond yn diogelu'r swm a fuddsoddwyd.

## 4.4 Buddsoddiadau Penodedig

Mae Canllawiau LIC yn diffinio buddsoddiadau penodedig fel rhai:

- a fynegir mewn punnoedd sterling,
- sydd i fod cael eu had-dalu o fewn 12 mis o'r trefniant,
- na ddiffiniwyd fel gwariant cyfalaf gan ddeddfwriaeth, ac
- a fuddsoddwyd gydag un o'r canlynol:
  - Llywodraeth y DU,
  - Awdurdod lleol, cyngor plwyf neu gyngor cymuned yn y DU, yr heddlu neu'r gwasanaeth tân, neu
  - gorff neu gynllun buddsoddi ag "ansawdd credyd uchel".

Mae Dyfed Powys yn diffinio sefydliad a gwarantau "ansawdd credyd uchel" fel rhai sydd â statws credyd A- neu uwch sydd â'u domisil yn y DU neu wlad dramor gyda chyfradd sofran o AA+ neu uwch.

## 4.5 Buddsoddiadau Amhenodedig

Ystyrir unrhyw fuddsoddiad nad yw'n bodloni'r diffiniad ar gyfer buddsoddiad penodedig fel un amhenodedig. Nid yw Dyfed-Powys yn bwriadu gwneud unrhyw fuddsoddiad a fynegir mewn arian gwlad dramor. Bydd buddsoddiadau amhenodedig felly yn cynnwys buddsoddiadau hirdymor, hynny yw, rhai sydd i fod i aeddfedu mewn 12 mis neu fwy o ddyddiad y trefniant. Dangosir y terfynau ar fuddsoddiadau amhenodedig yn nhabl 3 isod.

**Tabl 3: Terfynau Buddsoddiadau Amhenodedig**

| | Symiau sydd wedi'u buddsoddi ar hyn o bryd | Terfyn Arian Parod (Arfaethedig ar gyfer 2020/21) |
|---|---|---|
| **Cyfanswm buddsoddiadau hirdymor** | £6.3 miliwn | £10 miliwn |
| **Cyfanswm cyfranddaliadau mewn Cronfeydd Marchnad Arian** | £5.0 miliwn | £15 miliwn |
| **Cyfanswm cyfranddaliadau mewn cronfeydd cyfun eraill** | - | £3 miliwn |
| **Cyfanswm buddsoddiadau heb gyfraddau credyd neu a raddiwyd yn is nag [A-] (heblaw Llywodraeth y DU, ac Awdurdodau Lleol y DU)** | - | £4 miliwn |
| **Cyfanswm buddsoddiadau gyda sefydliadau â domisil mewn gwledydd tramor a raddiwyd yn is nag [AA+]** | - | £4 miliwn |
| **Uchafswm arian i'w fuddsoddi mewn buddsoddiadau amhenodedig** | - | £30 miliwn |

### 4.6 Terfynau Buddsoddi

Rhagwelir mai £4.032 miliwn fydd cronfa refeniw wrth gefn CHTh, a fydd ar gael i ddarparu ar gyfer colledion buddsoddi nas rhagwelwyd, ar 31 Mawrth 2020. Yr uchafswm a fenthycir i unrhyw un sefydliad (heblaw Llywodraeth y DU) fydd £3 miliwn. Bydd grŵp o fanciau dan yr un berchnogaeth yn cael eu trin fel un sefydliad o ran y terfynau hyn. Rhoddir terfynau hefyd ar reolwyr cronfeydd, buddsoddiadau mewn cyfrifon enwebeion broceriaid, gwledydd tramor a sectorau diwydiant fel y gwelir isod. Nid yw buddsoddiadau mewn banciau datblygu amlochrog yn cyfrif yn erbyn y terfyn ar gyfer unrhyw wlad dramor unigol, gan fod y risg wedi ei rannu ar draws nifer o wledydd.

**Tabl 4: Terfynau Buddsoddi**

| | Terfyn Arian Parod |
|---|---|
| **Unrhyw sefydliad unigol, ac eithrio Llywodraeth Ganolog y DU** | £3 miliwn yr un |
| **Llywodraeth Ganolog y DU** | Dim terfyn |
| **Unrhyw grŵp o sefydliadau dan yr un berchnogaeth** | £3 miliwn y grŵp |
| **Offerynnau cyfnewidiadwy mewn cyfrif enwebai brocer** | £25 miliwn y brocer |
| **Gwledydd tramor** | £4 miliwn y wlad |
| **Darparwyr Cofrestredig** | cyfanswm o £5 miliwn |
| **Buddsoddiadau ansicredig gyda Chymdeithasau Adeiladu** | cyfanswm o £4 miliwn |

### 4.7 Rheoli Hylifedd

Mae Dyfed-Powys yn paratoi rhagamcan llif arian blynyddol sy’n amcangyfrif y sefyllfa llif arian pob mis. Defnyddir hwn i benderfynu’r cyfnod hiraf y gellir ymrwymo cronfeydd yn ddarbodus. Caiff y rhagamcan hwn ei lunio ar sail ddarbodus, gyda derbynebion wedi eu hamcangyfrif yn rhy isel a thaliadau’n cael eu hamcangyfrif yn rhy uchel gan isafu’r risg o orfod benthyca ar delerau anffafriol er mwyn bodloni ei ymrwymiadau ariannol.

Pennir terfynau ar fuddsoddiadau tymor hir drwy gyfeirio at gynllun ariannol tymor canolig CHTh a'r rhagolwg llif arian.

Gwneir buddsoddiadau mewn biliau T a Thystysgrifau Adneuon hefyd, sy'n hylifol ac sy'n medru cael eu gwerthu yn y farchnad eilaidd os oes angen arian ar fyr rybudd.

Rhaid i bob buddsoddiad dros 13 mis gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan Brif Swyddog Ariannol (PSA) y CHTh.

### 4.8 Buddsoddiadau nad ydynt yn ymwneud â'r Trysorlys

Ar hyn o bryd, nid oes gan y Comisiynydd unrhyw fuddsoddiadau nad ydynt yn ymwneud â'r trysorlys.

## 5. Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys

Mae Dyfed Powys yn mesur ac yn rheoli ei agoredrwydd i risgiau rheoli trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol.

### 5.1 Diogelwch

Mae'r CHTh wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei agoredrwydd i risgiau credyd drwy fonitro statws credyd / sgôr credyd  cyfartalog ei bortffolio buddsoddiadau, wedi'i bwysoli yn ôl gwerth. Cyfrifir hyn drwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2 ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi'i bwysoli yn ôl maint pob buddsoddiad. Neilltuir sgôr ar gyfer buddsoddiadau nad ydynt wedi eu graddio yn seiliedig ar eu risg canfyddedig.

| | Targed |
|---|---|
| Statws credyd / sgôr cyfartalog portffolio | A / 6 |

### 5.2 Hylifedd

Mae'r CHTh wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei agoredrwydd i risgiau hylifedd drwy fonitro faint o arian parod sydd ar gael i fodloni'r taliadau annisgwyl o fewn pob cyfnod treigl o dri mis, heb fenthyca ychwanegol.

| | Targed |
|---|---|
| **Lleiafswm o fewn cronfeydd marchnad arian** | £2 filiwn |
| **Cyfanswm arian parod ar gael o fewn 3 mis** | £4 miliwn |

### 5.3 Amlygiad i Gyfraddau Llog

Nod y dangosydd hwn yw rheoli agoredrwydd y CHTh i risg cyfraddau llog. Y terfynau uchaf ar agoredrwydd i gyfraddau llog sefydlog a newidiol, a fynegir fel cyfran o'r prif swm net a fenthycwyd. (Mae buddsoddiadau yn cyfrif fel benthyca negyddol.)

| | 2020/21 | 2021/22 | 2023/24 |
|---|---|---|---|
| **Terfyn uchaf ar agoredrwydd i gyfraddau llog sefydlog** | 100% | 100% | 100% |
| **Terfyn uchaf ar agoredrwydd i gyfraddau llog newidiol** | 100% | 100% | 100% |

Buddsoddiadau a benthyciadau cyfradd sefydlog yw'r rheiny lle mae'r gyfradd llog yn cael ei gosod ar yr un lefel am gyfnod sydd o leiaf 12 mis, wedi ei fesur o ddechrau'r flwyddyn ariannol neu ddyddiad y trafodyn os yn hwyrach. Mae pob offeryn arall yn cael eu categoreiddio fel rhai â chyfradd newidiol.

## 5.4 Strwythur Aeddfedu Benthyciadau

Nod y dangosydd hwn yw rheoli agoredrwydd y CHTh i risg ail-ariannu. Y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedu benthyciadau cyfradd sefydlog fydd:

| | Uchaf | Isaf |
|---|---|---|
| **Dan 12 mis** | 100% | 0% |
| **12 mis ac o fewn 24 mis** | 100% | 0% |
| **24 mis ac o fewn 5 mlynedd** | 100% | 0% |
| **5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd** | 100% | 0% |
| **10 mlynedd a mwy** | 100% | 0% |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Dyddiad aeddfedu benthyciad yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu ei fod yn cael ei ad-dalu.

Gosodwyd y terfynau mor eang â phosibl er mwyn sicrhau nad yw cyfleoedd ar gyfer ailstrwythuro dyled yn cael eu colli.

**Prif symiau a fuddsoddwyd am Gyfnod Hirach na 364 diwrnod**

Diben y dangosydd hwn yw rheoli agoredrwydd y CHTh i'r risg o gael colledion drwy geisio ad-daliad cynnar ar ei fuddsoddiadau. Y terfynau ar gyfanswm y prif swm hirdymor a fuddsoddir i aeddfedu'n derfynol y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fydd:

| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|
| **Terfyn ar brif swm a fuddsoddir y tu hwnt i ddiwedd blwyddyn** | £10 miliwn | £8 miliwn | £6 miliwn |

## 6. Eitemau Eraill

Mae nifer o eitemau ychwanegol y mae CIPFA a Llywodraeth Cymru yn mynnu bod y CHTh yn eu cynnwys yn ei Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

## 6.1 Polisi ar Ddefnyddio Deilliadau Ariannol

Yn absenoldeb unrhyw bŵer cyfreithiol i wneud hynny, ni fydd y CHTh yn defnyddio deilliadau ariannol annibynnol (megis cyfnewidiadau, rhagolygon, blaendrafodion ac opsiynau). Gellir defnyddio deilliadau wedi eu mewnblannu mewn benthyciadau a buddsoddiadau, gan gynnwys cronfeydd cyfun a thrafodion tua'r dyfodol, a bydd y risgiau y maent yn eu cyflwyno yn cael eu rheoli yn unol â'r strategaeth gyffredinol ar gyfer rheoli risg trysorlys.

### 6.2 Hyfforddiant Buddsoddi

Mae Cod Ymarfer CIPFA yn mynnu bod y Prif Swyddog Ariannol yn sicrhau bod pob aelod o staff sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau rheoli'r trysorlys, gan gynnwys archwilio'r swyddogaeth rheoli trysorlys yn derbyn hyfforddiant priodol ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llwyr.

Mae staff sy'n ymgymryd â dyletswyddau rheoli Trysorlys yn mynd ar gyrsiau hyfforddi priodol a ddarperir gan Arlingclose ac yn mynychu cyfarfodydd strategaeth chwarterol. Mae'r staff hefyd yn mynd ar gyrsiau hyfforddi perthnasol eraill.

### 6.3 Ymgynghorwyr Buddsoddi

Mae'r CHTh wedi penodi cwmni Arlingclose Cyfyngedig fel ymgynghorwyr rheoli trysorlys ac mae'n derbyn cyngor penodol ynghylch materion buddsoddi, dyledion a chyllid cyfalaf ganddynt.

### 6.4 Buddsoddi Arian a Fenthycwyd cyn bod ei Angen

Gall y CHTh, o bryd i'w gilydd, fenthyca arian cyn bod angen amdano, pan ddisgwylir y bydd hyn yn rhoi'r gwerth am arian gorau yn yr hir dymor. Gan y bydd y symiau a fenthycir yn cael eu buddsoddi hyd nes y cânt eu gwario, mae'r CHTh yn ymwybodol y bydd yn agored i'r risg o golli'r symiau a fenthycwyd, a'r risg y bydd cyfraddau llog ar fuddsoddiadau a benthyciadau yn newid yn y cyfamser. Caiff y risgiau hyn eu rheoli fel rhan o drefniadau rheoli risgiau trysorlys cyffredinol y CHTh.

Ni fydd y cyfanswm a fenthycir yn uwch na'r cyfyngiad benthyca awdurdodedig o £45.2 miliwn. Disgwylir mai dwy flynedd fydd y cyfnod mwyaf rhwng benthyca a gwario'r arian, serch hyn, nid oes rhaid i Ddyfed-Powys gysylltu benthyciadau penodol gydag eitemau gwariant penodol.

### 6.5 Goblygiadau Ariannol

Y gyllideb ar gyfer yr incwm buddsoddi yn 2020/21 yw £0.116 miliwn, yn seiliedig ar bortffolio buddsoddi cyfartalog o £16.6 miliwn ar gyfradd llog o 0.70%. Os bydd lefelau gwirioneddol y buddsoddiadau a'r cyfraddau llog yn wahanol i'r rhagolygon, yna bydd gwahaniaeth cyfatebol yn y perfformiad yn erbyn y gyllideb. Mae'r balans buddsoddi hefyd yn cynnwys arian mewn perthynas â grantiau.

### 6.6 Dewisiadau Eraill a Ystyrir

Nid yw Canllawiau LIC na Chod CIPFA yn pennu unrhyw strategaeth rheoli'r trysorlys penodol i'w fabwysiadu gan awdurdodau lleol. Mae Prif Swyddog Ariannol y CHTh yn credu bod y strategaeth uchod yn cynnig cydbwysedd addas rhwng rheoli risgiau a chost-effeithiolrwydd. Isod, rhestrir rhai strategaethau eraill, ynghyd â'u hoblygiadau ariannol a'u hoblygiadau rheoli risgiau.

| Dewis arall | Effaith ar incwm a gwariant | Effaith ar reoli risg |
|---|---|---|
| Buddsoddi mewn ystod fwy cyfyng o wrthbartïon a/neu am gyfnodau byrrach | Bydd incwm o'r llog yn is | Llai o siawns o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu'n ymwneud â chredyd, er gallai unrhyw golledion felly fod yn fwy |

| | | |
|---|---|---|
| **Buddsoddi mewn ystod ehangach o wrthbartïon a/neu am gyfnodau hirach** | Bydd incwm o'r llog yn uwch | Mwy o risg o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu'n ymwneud â chredyd, ond gallai unrhyw golledion felly fod yn llai |
| **Benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau llog sefydlog hirdymor** | Bydd costau llog ar ddyledion yn codi; mae'n annhebygol y gellid gwrthbwyso hyn gan incwm buddsoddi uwch | Balans buddsoddi uwch yn arwain at fwy o effaith yn achos diffygdalu; fodd bynnag gallai costau llog hirdymor fod yn fwy sicr |
| **Benthyciadau byrdymor neu gyfradd newidiol yn lle rhai â chyfraddau sefydlog hirdymor** | Bydd costau llog dyledion yn is i ddechrau | Bydd y cynnydd yn y costau llog ar ddyledion yn cael eu gwrthbwyso i raddau gan y cynnydd yn yr incwm buddsoddi yn y tymor canolig, ond gall y costau hirdymor fod yn llai sicr |
| **Gostwng lefel y benthyciadau** | Arbedion ar log dyledion yn debygol o fod yn fwy na'r incwm buddsoddi a gollir | Balans buddsoddi is yn arwain at lai o effaith yn achos diffygdalu; fodd bynnag gallai'r costau llog hirdymor fod yn llai sicr |

**Atodiad A – Rhagolwg Economaidd a Chyfradd Llog Arlingclose Tachwedd 2019**

**Tybiaethau gwaelodol**

- Mae'r economi byd-eang ar fin cychwyn cyfnod o dyfiant arafach mewn ymateb i faterion gwleidyddol, sef safiad polisi masnach yr UD yn bennaf. Mae economi'r DU wedi arddangos arafu amlwg mewn tyfiant oherwydd yr ansicrwydd o gwmpas gadael yr UE a'r dirywiad yng ngweithgarwch byd-eang. Mewn ymateb, mae disgwyliadau o ran cyfraddau llog y DU a chyfraddau llog byd-eang wedi lleddfu.
- Mae rhywfaint o bositifrwydd o ran y trafodaethau masnach rhwng Tsieina a'r UD wedi llwyddo i atal y senarios economaidd gwaethaf. Fodd bynnag, mae gwybodaeth yn brin, a bu disgwyliadau gobeithiol yn anghywir yn y gorffennol.
- Mae'r broses o adael yr UE wedi'i gohirio tan 31 Ionawr 2020. Tra bod yr Etholiad Cyffredinol wedi cynnal ansicrwydd economaidd a gwleidyddol, mae'r polau piniwn yn awgrymu y gall sefyllfa'r Ceidwadwyr yn y senedd fod wedi'i chryfhau, sy'n lleihau'r perygl o oedi pellach o ran gadael yr UE. Pryder allweddol yw'r cyfnod pontio prin yn dilyn dyddiad ymadael ym mis Ionawr 2020, a fydd yn cynnal ac yn creu ansicrwydd ychwanegol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.
- Mae twf economaidd y DU wedi oedi er waethaf cynnyrch domestig gros o 0.3% yn Ch3 2019. Mae ffigurau misol yn nodi bod twf wedi lleihau wrth i'r chwarter fynd rhagddo ac mae data arolwg yn awgrymu hyder sy'n lleihau mewn cartrefi a busnesau. Mae'r ddau brif barti gwleidyddol wedi addo esmwytho ariannol sylweddol, a ddylai helpu i gefnogi twf.
- Er bod y potensial ar gyfer llwybrau dargyfeiriol ar gyfer polisi ariannol y DU yn parhau yn achos canlyniad yr Etholiad Cyffredinol, mae'r amgylchedd allanol gwannach yn cyfyngu symudiad manteisiol posibl yn sylweddol yn y gyfradd banc, tra bydd arafu economi'r DU yn gosod pwysau ar y Pwyllgor Polisi Ariannol i lacio'r polisi ariannol. Yn wir, pleidleisiodd dau o aelodau'r Pwyllgor Polisi Ariannol dros doriad ar unwaith ym mis Tachwedd 2019.
- Mae chwyddiant yn rhedeg islaw targed ar 1.7%. Er y gall y farchnad lafur tynn fod mewn perygl o bwysau chwyddiannol a yrrir yn ddomestig, dylai twf byd-eang arafach leihau'r posibilrwydd o bwysau a yrrir yn allanol, er y gallai helbul gwleidyddol wthio prisiau olew i fyny.
- Bydd gweithredoedd banciau canolog a pheryglon geowleidyddol yn parhau i gynhyrchu anweddolrwydd sylweddol mewn marchnadoedd ariannol, gan gynnwys marchnadoedd bond.

**Rhagolwg**

- Er ein bod ni wedi cynnal ein rhagolwg Cyfradd Banc ar 0.75% am y dyfodol rhagweladwy, mae risgiau sylweddol i'r rhagolwg hwn, sy'n ddibynnol ar ganlyniadau'r Etholiad Cyffredinol a'r gwerthusiad o'r economi byd-eang.
- Mae Arlingclose yn barnu bod y peryglon wedi'u pwyso i'r ochr dywyll.
- Mae cynnyrch gilt wedi codi, ond maen nhw dal yn isel oherwydd y rhagolygon economaidd meddal yn y DU ac yn fyd-eang. Bydd polisi ariannol yr UD a

gwariant Llywodraeth y DU yn ddylanwadau allweddol ochr yn ochr â pholisi ariannol y DU.

- Disgwyliwn i gynnyrch gilt aros ar lefelau cymharol isel am y dyfodol rhagweladwy ac yn barnu'r peryglon i fod yn gytbwys yn gyffredinol.

## Atodiad B – Sefyllfa Portffolio Buddsoddiadau a Dyledion Presennol

| **Benthyciadau Allanol** | 29 Chwefror 2020 **Gwir Bortffolio £miliwn** | **29 Chwefror 2020** Cyfradd Gyfartalog **%** |
|---|---|---|
| **Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus – Cyfradd Sefydlog Hirdymor** | 1.835 | 9.31 |
| **Cyfanswm Dyled Allanol Gros** | **1.835** | **9.31** |
| **Buddsoddiadau a Reolir yn Fewnol** | **29 Chwefror 2020 Gwir Bortffolio £miliwn** | **29 Chwefror 2020 Cyfradd Gyfartalog %** |
| **Tymor byr** | 15.00 | 0.719 |
| **Hirdymor** | 6.336 | 1.090 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **21.336** | **0.829** |

Mae dyled hirdymor wedi'i ddyddio cyn 1990. Cyfrifir balansau ddwywaith y flwyddyn (30 Medi a 31 Mawrth).

**Atodiad C – Diffiniadau Buddsoddiad**

**Cyfradd Credyd:** Wrth wneud penderfyniadau buddsoddi fe ystyrir y statws credyd hirdymor isaf a gyhoeddwyd gan Fitch, Moody's neu Standard & Poor's. Pan fydd y wybodaeth hon ar gael, fe ddefnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu'r dosbarth buddsoddi, neu fel arall fe ddefnyddir statws credyd y gwrthbartïon. Fodd bynnag, nid yw penderfyniadau buddsoddi byth yn cael eu gwneud ar sail statws credyd yn unig, ac ystyrir yr holl ffactorau eraill, gan gynnwys cyngor allanol.

**Banciau Ansicredig:** Cyfrifon, adneuon, tystysgrifau adneuon a bondiau ansicredig uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau hyn yn agored i'r risg sy'n gysylltiedig â cholledion credyd yn sgil proses achub ('bail-in') os bydd y rheolydd yn penderfynu bod y banc yn methu neu'n debygol o fethu.

**Banciau Sicredig:** Bondiau gwarchodedig, cytundebau adbrynu o chwith, a threfniadau cyfochrog eraill gyda banciau a chymdeithasau adeiladu. Mae'r buddsoddiadau hyn wedi eu sicrhau ar asedau'r banc, sy'n cyfyngu'r colledion posib petai methdaliad, er bod hynny'n annhebygol, ac yn golygu eu bod wedi eu heithrio rhag proses achub ('bail-in'). Lle nad oes statws credyd penodol ar gyfer y buddsoddiad, ond bod statws credyd ar gyfer y warant gyfochrog y mae'r buddsoddiad wedi ei sicrhau arno, defnyddir yr uchaf o statws credyd y gwarantau cyfochrog a statws credyd y gwrthbarti i benderfynu'r terfynau o ran arian parod ac amser. Ni fydd cyfanswm y buddsoddiau sicredig ac ansicredig mewn unrhyw un banc yn fwy na'r terfyn arian parod ar gyfer buddsoddiadau sicredig.

**Y Llywodraeth:** Benthyciadau, bondiau a biliau a gyhoeddwyd neu a warantwyd gan lywodraethau cenedlaethol, awdurdodau rhanbarthol a lleol a banciau datblygu amlochrog. Nid yw'r buddsoddiadau hyn yn agored i broses achub ('bail-in'), ac nid oes yna risg sylweddol o fethdaliad. Gellir gwneud buddsoddiadau o unrhyw swm gyda Llywodraeth Ganolog y DU am gyfnodau hyd at 50 mlynedd.

**Cwmnïau Corfforaethol:** Benthyciadau, bondiau a phapurau masnachol a gyhoeddir gan gwmnïau ac eithrio banciau a darparwyr cofrestredig. Nid yw'r benthyciadau hyn yn agored i fesurau achub 'bail-in', ond maent yn agored i'r risg o'r cwmni'n mynd yn fethdalwr. Ni wneir benthyciadau i gwmnïau nad ydynt wedi eu graddio heblaw eu bod yn rhan o gronfa amrywiol, er mwyn lledaenu'r risg yn ehangach.

**Darparwyr Cofrestredig:** Benthyciadau a bondiau a gyhoeddwyd ac a warantwyd gan neu a sicrhawyd ar, asedau Darparwyr Cofrestredig Tai Cymdeithasol, a arferwyd eu galw'n Gymdeithasau Tai. Caiff y cyrff hyn eu rheoleiddio'n llym gan yr Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau ac, fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, maent yn parhau i fod yn debygol iawn o dderbyn cefnogaeth gan y llywodraeth os bydd angen.

**Cytundebau Prynu o Chwith:** Trafodyn ariannol yw cytundeb adbrynu lle mae un endid (banc fel arfer) yn gwerthu buddsoddiadau (bondiau) i endid arall (y buddsoddwr) ar un dyddiad ac ar yr un pryd yn cytuno i'w adbrynu am bris penodol rywbryd eto. Mae cytundeb prynu o chwith yn cynnwys dau drafodyn unigol sy'n gysylltiedig â'i gilydd - gwerthu bondiau i'r banc am arian, ac yna adbrynu'r bondiau yn ddiweddarach am fwy o arian.

**Cronfeydd Cyfun:** Cyfranddaliadau mewn cyfryngau buddsoddi amrywiol sy'n cynnwys unrhyw un o'r mathau uchod o fuddsoddiad, yn ogystal â chyfranddaliad ecwiti ac eiddo. Y fantais o'r cronfeydd hyn yw bod y risgiau buddsoddi wedi'u gwasgaru'n ehangach, a bod gwasanaeth rheolwr cronfa proffesiynol ar gael am ffi. Defnyddir Cronfeydd Marchnad Arian tymor byr sy'n cynnig hylifedd ar yr un diwrnod a defnyddir anweddolrwydd isel iawn, neu ddim anweddolrwydd o gwbl, yn lle cyfrifon banc y ceir mynediad atynt yn syth.

**Atodiad Ch – Arferion Rheoli Trysorlys (ARhT)**

**ARhT1 Rheoli Risg**

Bydd PSA'r CHTh yn llunio, gweithredu a monitro'r holl drefniadau ar gyfer adnabod, trin a rheoli risgiau mewn perthynas â rheoli'r trysorlys. Bydd yn adrodd o leiaf unwaith y flwyddyn ar ddigonolrwydd/addasrwydd y trefniadau hyn, a bydd yn adrodd, fel mater brys, ynghylch amgylchiadau unrhyw anhawster sydd wedi codi, neu'n debygol o godi wrth geisio cyflawni amcanion y CHTh yn y cyswllt hwn. Bydd yn cyflawni'r holl weithredoedd hyn yn unol â'r gweithdrefnau a restrir yn ARhT6 *Gofynion adrodd a threfniadau gwybodaeth reoli.*

Mewn perthynas â phob un o'r risgiau canlynol, mae'r trefniadau sy'n ceisio sicrhau cydymffurfiad â'r amcanion hyn wedi eu rhestru oddi tanynt:-

**Risg Credyd a Gwrthbartïon**

**Diffiniad**

*Y risg i wrthbarti fethu â chyflawni ei ymrwymiadau cytundebol i sefydliad dan fuddsoddiad, benthyciad, cyfalaf, arian prosiect neu bartneriaeth, yn enwedig o ganlyniad i ostyngiad yn nheilyngdod credyd y gwrthbarti, a'r effaith andwyol ar gyfalaf neu adnoddau cyfredol (refeniw) y sefydliad.*

**Cam gweithredu**

"Mae Dyfed-Powys yn ystyried diogelwch y prif symiau a fuddsoddir ganddo yn un o brif amcanion ei weithgareddau rheoli trysorlys. Gan hynny, bydd yn sicrhau bod ei restrau a chyfyngiadau parti i gontract yn adlewyrchu agwedd ddarbodus tuag at sefydliadau y gallai arian gael eu hadneuo ynddynt, a bydd yn cyfyngu ar ei weithgareddau buddsoddi i'r offerynnau, dulliau a thechnegau y cyfeirir atynt yn ARhT4 *Offerynnau, dulliau a thechnegau cymeradwy*. Mae hefyd yn adnabod yr angen i gael, a bydd gan hynny yn cynnal, polisi parti i gontract ffurfiol yng nghyswllt y sefydliadau hynny ble y gall fenthyca, neu y gall fynd i drefniadau ariannu eraill gyda hwy."

Ceir manylion y Gwrthbartïon o fewn y Polisi a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

**Risg Hylifedd**

**Diffiniad**

Y risg na fydd arian ar gael pan fydd ei angen, bod rheolaeth hylifedd aneffeithiol yn creu costau ychwanegol nad oeddynt wedi'u cynnwys yn y gyllideb ac y bydd amcanion busnes / gwasanaeth y sefydliad gan hynny'n cael eu cyfaddawdu.

**Cam gweithredu**

Gwaith PSA'r Prif Gwnstabl drwy'r staff rheoli trysorlys a gyflogir gan y Prif Gwnstabl yw sicrhau bod ganddo adnoddau arian parod, trefniadau benthyca, cyfleusterau gorddrafft neu drefniadau wrth gefn, sydd yn ddigonol, er nid yn ormodol, i alluogi'r sefydliad i sicrhau bod digon o arian ar gael bob amser ar gyfer cyflawni ei amcanion busnes / gwasanaeth.

Byddant bob amser yn sicrhau bod arian dros ben, y gellir galw arno (£2 filiwn) drwy ei fuddsoddiadau mewn cyfrifon adalw arian parod, ar gael ar unrhyw adeg.

Mae prosesau cadarn a weithredir yn wythnosol, yn fisol ac yn flynyddol yn eu lle ar gyfer rhagamcanu llif arian yn unol â Rheoliadau Ariannol a Gweithdrefnau Rheoli Ariannol.

**Risg Cyfradd Llog**

**Diffiniad**

Risg y bydd amrywiadau yn lefelau cyfraddau llog yn creu baich annisgwyl neu nas rhagwelwyd ar gyllid y sefydliad, ac y mae'r sefydliad wedi methu amddiffyn ei hun yn ddigonol yn eu herbyn.

**Cam gweithredu**

Bydd Dyfed-Powys yn rheoli ei agoredrwydd i amrywiadau mewn cyfraddau llog gyda golwg ar ffrwyno ei gostau llog, neu sicrhau ei refeniw llog, yn unol â'r symiau a ddarparwyd yn ei drefniadau cyllidebol fel ag y'u diwygiwyd yn unol â ARhT6 *Gofynion adrodd, a threfniadau gwybodaeth rheoli.*

Bydd yn cyflawni hyn drwy ddefnyddio'i offerynnau, ei ddulliau a'i dechnegau ariannu a buddsoddi cymeradwy yn ddarbodus. Gwneir hyn yn bennaf er mwyn creu sefydlogrwydd a sicrwydd costau ac arian, ond ar yr un pryd, bydd yn cynnal lefel ddigonol o hyblygrwydd i allu manteisio ar newidiadau annisgwyl, ac o bosib buddiol, yn lefel neu strwythur cyfraddau llog. Dylai hun fod yn amodol ar ystyriaeth ac, os oes angen, cymeradwyaeth unrhyw bolisi neu oblygiadau cyllidebol.

Bydd y CHTh yn benthyca oddi wrth ffynonellau cymeradwy yn unig, megis y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, sefydliadau fel y Banc Buddsoddiadau Ewropeaidd, a banciau masnachol sydd ar restr y CHTh o sefydliadau awdurdodedig. Bydd hyn yn lleihau'r risg gyfreithiol a rheoleiddiol. Bydd rhaid i bob buddsoddiad dros 13 mis gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan Brif Swyddog Ariannol y CHTh.

**Risg Cyfraddau Cyfnewid**

**Diffiniad**

Y risg bod amrywiadau mewn cyfraddau cyfnewid dramor yn creu baich annisgwyl neu, nas cyllidwyd ar ei gyfer, ar gronfeydd y sefydliad, ac nad yw'r sefydliad wedi diogelu ei hun yn ddigonol yn ei erbyn.

**Cam gweithredu**

Ar hyn o bryd mae Dyfed-Powys ond yn buddsoddi mewn cynnyrch sterling, ac felly nid oes unrhyw risg yn ymwneud â chyfraddau cyfnewid.

**Risg Ailariannu**

**Diffiniad**

Y risg na ellir ailariannu benthyciadau sy'n aeddfedu, cyfalaf, prosiectau neu bartneriaethau ar delerau sy'n adlewyrchu'r darpariaethau a wnaed gan y sefydliad ar gyfer yr ailariannu, cyfalaf a chyfredol (refeniw) ill dau, a / neu fod y telerau'n anghyson â chyflwr cyffredinol y farchnad ar y pryd.

**Cam gweithredu**

Bydd Dyfed-Powys yn sicrhau bod ei fenthyciadau, ariannu preifat a threfniadau partneriaeth yn cael eu trafod, eu strwythuro a'u dogfennu. Bydd hefyd yn sicrhau bod proffil aeddfedu'r arian a godir felly yn cael ei reoli, gyda golwg ar sicrhau telerau cynnig ar gyfer adnewyddu neu ailariannu os bydd angen, sydd yn gystadleuol ac mor ffafriol i'r CHTh ag y gellir yn rhesymol ei ddisgwyl o ystyried amodau'r farchnad ar y pryd.

Bydd yn ymroi i reoli ei berthynas â'i wrthbartïon yn y trafodion hyn mewn modd sy'n sicrhau ei fod yn cyflawni'r amcan hwn, a bydd hefyd yn osgoi gorddibyniaeth ar unrhyw un ffynhonnell ariannu os oes perygl y gallai hynny beryglu ei allu i gyflawni'r uchod.

**Risgiau Cyfreithiol a Rheoleiddiol**

**Diffiniad**

Y risg bod y sefydliad ei hun, neu sefydliad y mae'n ymdrin ag ef fel rhan o'i weithgareddau rheoli'r trysorlys, yn methu â gweithredu yn unol â'i bwerau cyfreithiol neu ofynion rheoleiddiol, a bod y sefydliad yn dioddef colledion o ganlyniad i hynny.

**Cam gweithredu**

Bydd Dyfed-Powys yn sicrhau bod ei weithgareddau rheoli'r trysorlys yn cydymffurfio â'i bwerau statudol a'i ofynion rheoleiddiol. Bydd yn arddangos ei gydymffurfiad, os gofynnir iddo wneud hynny, i'r holl bartïon y mae'n ymwneud â hwy fel rhan o'r gweithgareddau hyn. Wrth lunio ei bolisi credyd a gwrthbarti dan ARhT1 Rheoli risg credyd a gwrthbartïon, bydd yn sicrhau bod tystiolaeth o bwerau, awdurdod a chydymffurfiad gwrthbartïon mewn perthynas ag unrhyw drafodion gyda'r CHTh, yn enwedig mewn perthynas â dyletswydd gofal a'r ffioedd a godir.

Mae Dyfed-Powys yn cydnabod y gall newidiadau cyfreithiol a rheoleiddiol yn y dyfodol gael effaith ar ei weithgareddau rheoli'r trysorlys a bydd yn ceisio, cymaint ag sy'n rhesymol, i leihau'r risg bod y rhain yn cael effaith andwyol ar y CHTh.

**Cynlluniau wrth gefn ar gyfer ymdrin â Thwyll, Camgymeriadau a Llygredd**

**Diffiniad**

Y risg bod sefydliad yn methu ag adnabod amgylchiadau lle y gallai, yn ei weithgareddau rheoli'r trysorlys, fod yn agored i risg o golled oherwydd twyll, camgymeriad, llygredd neu ddigwyddiadau posib eraill, ac yn methu â defnyddio systemau a gweithdrefnau priodol na chynnal trefniadau rheoli effeithiol i sicrhau nad yw hyn yn digwydd. Mae hyn yn cynnwys y risgiau sy'n arfer cael eu galw'n risgiau gweithredol.

**Cam gweithredu**

Bydd Dyfed-Powys yn sicrhau ei fod wedi adnabod yr amgylchiadau a allai ei adael yn agored i risg o golled drwy dwyll, camgymeriad, llygredd neu ddigwyddiadau posib eraill yn ei

weithgareddau rheoli trysorlys. Bydd felly yn defnyddio systemau a gweithdrefnau addas, ac yn cynnal trefniadau rheoli hapddigwyddiadau effeithiol at y diben hwn. Bydd Archwilio Mewnol yn adolygu'r swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys yn rheolaidd ac yn adrodd i'r Cyd-bwyllgor Archwilio.

Mae strwythur adrodd pendant yn ei le ar gyfer achosion o dwyll ac ati petai system yn methu. Mae'r polisi yswiriant yn cynnwys sicrwydd ar gyfer twyll, camgymeriad a llygredd. Mae hyn wedi ei ddogfennu yn y Polisi Gwrth Dwyll a Llygredd a'i gynnwys yng Ngweithdrefn Rheoli Ariannol 4.7 "Ymdrin ag amheuon o Dwyll a Dichell"

**Risg y Farchnad**

**Diffiniad**

Y risg, oherwydd amrywiadau anffafriol yng ngwerth y prif symiau y mae sefydliad yn benthyca ac yn buddsoddi, bod ei bolisïau ac amcanion rheoli'r trysorlys datganedig dan fygythiad, a'i fod heb ddiogelu ei hun yn ddigonol yn erbyn effeithiau hynny.

**Cam gweithredu**

Bydd Dyfed-Powys yn ceisio sicrhau na fydd ei bolisïau na'i amcanion rheoli'r trysorlys datganiedig yn cael eu peryglu gan amrywiadau marchnad anffafriol yng ngwerth y prif symiau a fuddsoddir ganddo, a bydd drwy hynny yn ceisio diogelu ei hun rhag effeithiau'r fath amrywiadau.

Dim ond gyda sefydliadau sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr gwrthbartïon benthyca diweddaraf a gymeradwywyd gan Arlingclose y bydd yn gosod buddsoddiadau.

**ARhT 2 Mesur Perfformiad**

Mae Dyfed-Powys wedi ymrwymo i geisio sicrhau gwerth am arian yn ei weithgareddau rheoli trysorlys ac i ddefnyddio methodoleg perfformiad i gynnal y nod hwnnw, o fewn y fframwaith a nodir yn ei ddatganiad polisi rheoli'r trysorlys.

O ganlyniad, bydd swyddogaeth rheoli'r trysorlys yn destun dadansoddiad parhaus o'r gwerth y mae'n ychwanegu o ran ategu amcanion busnes a gwasanaeth datganedig y sefydliad. Bydd hefyd yn destun archwilio rheolaidd o ran dulliau eraill o ddarparu gwasanaethau, argaeledd cymhelliannau megis grantiau ariannol neu gymorthdaliadau eraill, a'r cyfleoedd ar gyfer gwelliannau posib eraill. Bydd perfformiad swyddogaeth rheoli'r trysorlys yn cael ei fesur gan ddefnyddio'r meini prawf a nodir isod:-

Bydd y mesurau / meincnodau perfformiad ar gyfer rheoli'r trysorlys yn cynnwys yr isod:

| | **Mesur Perfformiad** |
|---|---|
| 1 | Cyflawni'r incwm buddsoddi a bennwyd yn y gyllideb |
| 2 | Sicrhau balans arian parod o 31 diwrnod |
| 3 | Sicrhau bod buddsoddiadau ond yn cael eu gosod gyda sefydliadau sy'n cydymffurfio â'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys blynyddol. |

| | |
|---|---|
| 4 | Sicrhau y cedwir at derfynau gwrthbartïon cymeradwy (gweler ARhT 1/ 5) |
| 5 | Lefelau disgwyliedig o fuddsoddiadau'r mis o'i gymharu â'r gwir lefel o fuddsoddi |
| 6 | Cyfradd cyfartalog o enillion ar fuddsoddiadau y mis o'i gymharu â'r targed |

### ARhT3 Gwneud Penderfyniadau a Dadansoddi

Bydd Dyfed-Powys yn cynnal cofnod manwl o benderfyniadau rheoli'r trysorlys ac o'r prosesau a'r arferion a weithredwyd wrth ddod i'r penderfyniadau hynny, er mwyn dysgu o'r gorffennol a dangos bod camau rhesymol wedi eu cymryd i sicrhau bod yr holl faterion a oedd yn berthnasol i'r penderfyniadau hynny wedi cael eu hystyried ar y pryd.

Ni wneir penderfyniadau ynghylch cyllido, benthyca, rhoi benthyg ac offerynnau a thechnegau newydd oni fyddant yn cydymffurfio â Strategaeth a Pholisi Rheoli'r Trysorlys. Bydd pob penderfyniad yn agored i archwiliad annibynnol.

### ARhT4 Offerynnau, Dulliau a Thechnegau Cymeradwy

Bydd Dyfed-Powys yn ymgymryd â'i weithgareddau rheoli'r trysorlys gan ddefnyddio'r offerynnau, dulliau a thechnegau hynny a nodir yn y Rheoliadau Ariannol a'r Gweithdrefnau Rheoli Ariannol yn unig, ac o fewn y terfynau a'r paramedrau a ddiffinir yn ARhT1 Rheoli Risg.

Mae'r adran ar Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol 7.8F yn rhoi cyfarwyddyd ar drefniadau Rheoli'r Trysorlys a Bancio ac mae'r Weithdrefn Rheoli Ariannol 2.1 *Trefniadau Rheoli'r Trysorlys a Bancio* yn nodi'r offerynnau, dulliau a thechnegau a gymeradwywyd.

### ARhT5 Trefniadaeth, Eglurdeb a Gwahanu Cyfrifoldebau a Threfniadau Delio

Mae Dyfed-Powys yn ystyried ei bod yn hanfodol, at ddibenion rheoli a monitro ei weithgareddau rheoli'r trysorlys yn effeithiol, ac er mwyn lleihau'r perygl o dwyll neu gamgymeriad, ac er mwyn ceisio sicrhau'r perfformiad gorau posib, bod y gweithgareddau hyn yn cael eu strwythuro a'u rheoli mewn modd cwbl integredig, a bod eglurdeb bob amser ynghylch cyfrifoldebau rheoli'r trysorlys.

Yr egwyddor a fydd yn sail i hyn yw gwahaniaethu clir rhwng y rhai y mae'r gwaith o bennu polisïau rheoli trysorlys wedi ei ymddiried iddynt a'r rhai y mae'r gwaith o weithredu a rheoli'r polisïau hyn wedi ei ymddiried iddynt, yn enwedig mewn perthynas â gweithredu a throsglwyddo arian, cofnodi a gweinyddu penderfyniadau rheoli'r trysorlys, ac archwilio ac adolygu swyddogaeth rheoli'r trysorlys.

Os a phan y bydd Dyfed-Powys yn bwriadu gwyro o'r egwyddorion hyn, o ganlyniad i ddiffyg adnoddau neu amgylchiadau eraill, bydd PSA'r Prif Gwnstabl yn sicrhau bod y rhesymau'n cael eu hadrodd yn gywir i PSA'r CHTh yn unol ag ARhT6 *Gofynion Adrodd a Threfniadau Gwybodaeth Rheoli*, a bod y goblygiadau'n cael eu hystyried a'u harfarnu'n briodol.

Bydd PSA'r Prif Gwnstabl yn sicrhau bod yna ddatganiadau ysgrifenedig clir o gyfrifoldebau pob swydd sydd yn ymwneud â rheoli'r trysorlys, ac o'r trefniadau cyflenwi mewn achos o absenoldeb. Bydd PSA'r Prif Gwnstabl hefyd yn sicrhau bob amser bod y rheiny sy'n ymwneud

â rheoli'r trysorlys yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau a bennir ac yn adrodd i Brif Swyddog Ariannol y CHTh ynghylch unrhyw wyro oddi wrthynt.

Bydd PSA'r Prif Gwnstabl yn sicrhau bod dogfennaeth gywir ar gyfer pob deliant a thrafodyn a bod gweithdrefnau mewn lle ar gyfer trosglwyddo arian yn effeithiol, a bydd yn darparu tystiolaeth o hyn i Brif Swyddog Ariannol y CHTh pan fydd angen.

**ARhT6 Gofynion Adrodd a Threfniadau Gwybodaeth Rheoli**

Bydd Dyfed-Powys yn sicrhau bod adroddiadau rheolaidd yn cael eu paratoi a'u hystyried ar weithredu ei bolisïau rheoli'r trysorlys; ar effeithiau penderfyniadau a wneir a thrafodion a gyflawnir i geisio'r polisïau hynny; ar oblygiadau newidiadau, yn benodol cyllidebol, yn deillio o ffactorau rheoleiddio, economaidd, marchnad neu eraill sy'n effeithio ar ei weithgareddau rheoli'r trysorlys; a pherfformiad swyddogaeth rheoli'r trysorlys.

Awgrymir bod y broses adrodd ganlynol yn cael ei gweithredu gan Brif Swyddog Ariannol y CHTh:-

Gofynion adrodd blynyddol cyn dechrau'r flwyddyn

- Adolygu datganiad a strategaeth polisi Rheoli'r Trysorlys
- Adolygu'r Arferion Rheoli'r Trysorlys,
- Dangosyddion Darbodus.

Gofynion adrodd canol blwyddyn

- Gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys yr ymgymerwyd â hwy,
- Gwyriadau (os o gwbl) o'r polisïau / arferion a gytunwyd,
- Adroddiad Perfformiad,
- Perfformiad yn erbyn Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus.

Gofynion adrodd blynyddol ar ôl diwedd blwyddyn

- Perfformiad Swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys,
- Adrodd ar oblygiadau o ran risg unrhyw benderfyniadau a wnaed a thrafodion a gyflawnwyd,
- Adrodd am amgylchiadau unrhyw anghydffurfio â'r Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys a'r Arferion Rheoli'r Trysorlys.

**ARhT7 Trefniadau Cyllido, Cyfrifyddu ac Archwilio**

Bydd PSA'r CHTh yn paratoi, a'r CHTh yn cymeradwyo ac yn diwygio o bryd i'w gilydd os bydd angen, cyllideb flynyddol ar gyfer swyddogaeth rheoli'r trysorlys, ynghyd ag unrhyw incwm cysylltiol. Bydd y materion sydd i'w cynnwys yn y gyllideb yn cynnwys, o leiaf, y rhai sy'n ofynnol trwy statud neu reoliad, ynghyd â gwybodaeth a fydd yn dangos cydymffurfiad â ARhT1 *Rheoli Risg*, ARhT2 *Mesur Perfformiad* a ARhT4 *Offerynnau, Dulliau a Thechnegau Cymeradwy*. Bydd y PSA yn ymarfer rheolaeth effeithiol dros y gyllideb hon, ac yn argymell unrhyw

newidiadau gofynnol, ac yn adrodd arnynt, yn unol â ARhT6 *Gofynion Adrodd a Threfniadau Gwybodaeth Rheoli*.

Bydd Dyfed-Powys yn rhoi cyfrif am ei weithgareddau rheoli'r trysorlys, am y penderfyniadau a wnaed a'r trafodion a weithredwyd, yn unol â'r arferion a'r safonau cyfrifyddu priodol, ac â'r gofynion statudol a rheoleiddiol sydd mewn grym ar y pryd ac yn enwedig Cod Ymarfer CIPFA a Chyfarwyddyd Traws-sector ar gyfer Rheoli Trysorlys a gyhoeddwyd yn 2011. Bydd y Prif Swyddog Ariannol yn gweithredu yn unol â datganiad polisi'r CHTh a TMP a *CIPFA: Safon Arfer Broffesiynol ar Reoli'r Trysorlys.*

Bydd y CHTh yn sicrhau bod ei archwilwyr a'r rhai y mae'r gwaith o gynnal archwiliadau rheoleiddiol wedi ei ymddiried iddynt yn cael mynediad i'r holl wybodaeth a phapurau sy'n ategu gweithgareddau swyddogaeth rheoli'r trysorlys, ac sydd eu hangen i gyflawni eu swyddi'n gywir. Bydd y CHTh hefyd yn sicrhau bod y wybodaeth a'r papurau hynny yn cydymffurfio â pholisïau allanol a mewnol ac arferion cymeradwy.

Bydd gweithdrefnau a phrosesau Rheoli'r Trysorlys yn cael eu harchwilio yn unol â'r strategaeth archwilio mewnol ar sail risg.

Bydd yr archwilwyr fel rhan o'u cyfrifoldebau wrth archwilio'r Datganiad Cyfrifon, yn ceisio gwiriad annibynnol oddi wrth gwrthbartïon buddsoddiadau'r CHTh.

### ARhT8 Rheoli Arian Parod a Llif Arian

Oni bai bod gofynion statudol neu reoleiddiol yn mynnu'n wahanol, bydd yr holl arian sydd yn nwylo Dyfed-Powys yn cael ei reoli gan y CHTh, a bydd yn cael ei gydgasglu i ddibenion rheoli llif arian a buddsoddiadau. Bydd blaenamcanion llif arian yn cael eu paratoi'n rheolaidd, a bydd PSA'r CHTh a PSA'r Prif Gwnstabl yn sicrhau bod y rhain yn ddigonol at ddibenion monitro cydymffurfiad ag ARhT1 *Rheoli Risg Hylifedd.*

### ARhT9 Gwyngalchu arian

Mae Dyfed-Powys yn effro i'r posibilrwydd y gallai fod yn destun ymgais i'w dynnu i mewn i weithred gwyngalchu arian. O ganlyniad, bydd yn cynnal gweithdrefnau ar gyfer gwirio a chofnodi pwy yw ei gwrthbartïon ac adrodd am unrhyw amheuon, a bydd yn sicrhau bod y staff sy'n gysylltiedig â hyn wedi eu hyfforddi'n drylwyr.

Dim ond gwrthbartïon a gymeradwywyd gan yr ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys a ddefnyddir. Cytunir ar delerau ac amodau rhwng y parti i gontract a'r CHTh cyn trosglwyddo arian.

Mae Deddf Elw Troseddau 2020 (POCA) a'r Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2007 wedi ychwanegu at gyfrifoldebau archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a'i staff a'i gontractwyr adrodd i'r Asiantaeth Troseddau Difrifol a Threfnedig (SOCA) os ydynt yn amau, o ganlyniad i wybodaeth a gafwyd yn ystod eu gwaith, bod gweithgareddau troseddol sydd wedi arwain at elw ariannol wedi'u cyflawni.

Os bydd unrhyw staff sy'n gysylltiedig â Rheoli'r Trysorlys yn amau gweithgareddau gwyngalchu arian, dylid dod â'r mater i sylw PSA'r CHTh neu PSA'r Prif Gwnstabl.

### ARhT10 Hyfforddiant a Chymwysterau

Mae Dyfed-Powys yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod yr holl staff sy'n gysylltiedig â swyddogaeth rheoli'r trysorlys wedi'u harfogi'n llawn i ymgymryd â'r dyletswyddau a'r

cyfrifoldebau sydd wedi'u neilltuo iddynt. Bydd y CHTh felly'n ceisio penodi unigolion sydd yn fedrus ac yn brofiadol, a bydd yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff i'w galluogi i ennill a chynnal lefel briodol o arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau. Bydd PSA'r CHTh yn argymell ac yn gweithredu'r trefniadau angenrheidiol.

Bydd PSA'r CHTh yn sicrhau bod yr holl staff sydd â chyfrifoldebau rheoli'r trysorlys, gan gynnwys y rheiny â chyfrifoldebau craffu, yn cael mynediad at hyfforddiant sy'n addas i'w anghenion a'u cyfrifoldebau.

Mae'r rheini sydd â chyfrifoldeb llywodraethu yn deall eu cyfrifoldeb unigol i sicrhau bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol.

Mae staff sy'n ymgymryd â dyletswyddau rheoli Trysorlys yn mynd ar gyrsiau hyfforddi priodol a ddarperir gan Arlingclose ac yn mynychu cyfarfodydd strategaeth chwarterol. Mae staff hefyd yn mynd ar gyrsiau hyfforddi perthnasol a gynhelir gan CIPFA.

Mae Arlingclose yn anfon e-fwletinau wythnosol sy'n rhoi cyngor ynghylch unrhyw ddatblygiadau economaidd ac yn awgrymu newidiadau i derfynau gwrthbartïon.

### ARhT11 Defnyddio Darparwyr Gwasanaeth Allanol

Mae Dyfed-Powys yn cydnabod bod cyfrifoldeb am benderfyniadau rheoli'r trysorlys yn aros gyda'r CHTh pob amser. Mae hefyd yn cydnabod gwerth posibl defnyddio darparwyr gwasanaethau rheoli trysorlys allanol er mwyn sicrhau sgiliau ac adnoddau arbenigol. Pan fydd yn defnyddio darparwyr gwasanaeth o'r fath, bydd yn sicrhau ei fod yn gwneud hynny am resymau a fydd wedi'u cyflwyno i werthusiad llawn o'r costau a'r buddion. Bydd hefyd yn sicrhau bod telerau penodiad y darparwyr, a'r dulliau a fydd yn cael eu defnyddio i asesu eu gwerth, yn cael eu cytuno a'u dogfennu'n gywir ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Bydd hefyd yn sicrhau, lle bo hynny'n ymarferol ac yn angenrheidiol, fod amrediad o ddarparwyr gwasanaethau'n cael ei ddefnyddio, er mwyn osgoi gorddibyniaeth ar un cwmni neu ar nifer fechan o gwmnïau. Lle mae gwasanaethau'n destun trefniadau tendro neu ail-dendro, bydd gofynion deddfwriaethol yn cael eu parchu bob amser. Mae'r cyfrifoldeb am fonitro'r trefniadau hyn yn syrthio ar PSA'r CHTh.

Mae gan Ddyfed-Powys gytundeb gydag Arlingclose ar gyfer darparu cyngor/cymorth fel a ganlyn:

- Cyngor strategol
- Cyngor cyllid cyfalaf
- Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
- Rhagamcanu Cyfraddau Llog a Chyngor Economaidd
- Cyngor Polisi Buddsoddi
- Cyngor ynghylch Dyled
- Cymorth Gwrthbartïon
- Seminarau a hyfforddiant
- Gwefan a chyfarfodydd cleientiaid.

### ARhT12 Llywodraethu Corfforaethol

Mae Dyfed-Powys wedi mabwysiadu a gweithredu argymhellion allweddol Cod Ymarfer CIPFA. Ystyrir bod hyn yn hanfodol o ran sicrhau trefn llywodraethu corfforaethol cywir ym

maes rheoli'r trysorlys, a bydd PSA'r CHTh a PSA'r Prif Gwnstabl yn monitro effeithiolrwydd y trefniadau hyn, ac yn adrodd yn eu cylch os a phan fydd angen.

Mae'r Cod yn argymell bod sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yn datgan eu hymroddiad i gofleidio egwyddorion llywodraethu corfforaethol yn ei gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys, yn enwedig didwylledd a thryloywder.

Mae Dyfed-Powys wedi ymrwymo i geisio sicrhau trefn llywodraethu corfforaethol cywir ym mhob agwedd o'i fusnesau a'i wasanaethau, ac i sefydlu'r egwyddorion a'r arferion ar gyfer cyflawni hyn. Felly, bydd swyddogaeth rheoli'r trysorlys a'i gweithgareddau'n cael eu cyflawni mewn modd agored, tryloyw, gonest, cywir ac atebol, a adlewyrchir yn Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a Gweithdrefnau Rheoli Ariannol Dyfed-Powys.

Bydd polisïau ac arferion Rheoli'r Trysorlys y sefydliad yn cael eu cyhoeddi ar y we.

PSA'r CHTh sy'n bennaf gyfrifol am swyddogaethau Rheoli'r Trysorlys a bydd yn sicrhau bod gwahanu digonol mewn perthynas â dyletswyddau staff sy'n gyfrifol am gyflawni Swyddogaethau Rheoli'r Trysorlys.

## Atodiad D Dangosyddion Darbodus a Datganiad Isafswm Darpariaeth Refeniw 2020/19

Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003 mae'n ofynnol i'r CHTh roi ystyriaeth i *God Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol* y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (y Cod Darbodus) wrth bennu faint o arian y gall fforddio ei fenthyca. Amcanion y Cod Darbodus yw sicrhau, o fewn fframwaith eglur, bod cynlluniau buddsoddi cyfalaf awdurdodau lleol yn fforddiadwy, darbodus a chynaliadwy, a bod penderfyniadau rheoli'r trysorlys yn cael eu gwneud yn unol ag arfer proffesiynol da. I ddangos bod y CHTh wedi bodloni'r amcanion hyn, mae'r Cod Darbodus yn pennu'r dangosyddion canlynol sy'n rhaid eu gosod a'u monitro'n flynyddol.

### 1. Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf:

Gellir crynhoi cyllido a gwariant cyfalaf arfaethedig CHTh fel a ganlyn.

| Gwariant Cyfalaf a Chyllido | Amcangyfrif 2019/20 | Amcangyfrif 2020/21 | Amcangyfrif 2021/22 | Amcangyfrif 2022/23 | Amcangyfrif 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£mil** | **£mil** | **£mil** | **£mil** | **£mil** |
| Prosiectau Ystadau | 1,364 | 10,774 | 17,500 | 5,100 | 1,100 |
| Cerbydau / Cwch | 1,035 | 1,085 | 1,050 | 1,050 | 1,050 |
| TG a Chynlluniau Eraill | 3,576 | 4,364 | 4,070 | 6,423 | 2,734 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **5,976** | **16,223** | **22,620** | **12,573** | **4,884** |
| | | | | | |
| Arian Grant | 243 | 182 | - | - | - |
| Gofyniad Benthyca | 1,364 | 10,774 | 20,503 | 10,338 | 2,149 |
| Grantiau Cyfalaf | 85 | 85 | 85 | 85 | 85 |
| Cyfraniad o'r Cyfrif Refeniw | 500 | 850 | 1,600 | 2,100 | 2,600 |
| Cronfeydd wrth gefn Eraill | 413 | 170 | 150 | - | - |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,787 | - | 250 | 50 | 50 |
| Cronfa Gyfalaf Wrth Gefn | 1,584 | 4,162 | 32 | - | - |
| **Cyfanswm Cyllido** | **5,976** | **16,223** | **22,620** | **12,573** | **4,884** |

### 2. Amcangyfrif o'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf

Mae'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf yn mesur angen gwaelodol CHTh i fenthyca ar gyfer diben cyfalaf.

| Gofyniad Ariannu Cyfalaf Cronnus | 31.03.20 Diwygiedig £miliwn | Amcangyfrif 31.03.21 £miliwn | Amcangyfrif 31.03.22 £miliwn | Amcangyfrif 31.03.23 £miliwn | Amcangyfrif 31.03.24 £miliwn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | 1.4 | 12.1 | 32.4 | 41.5 | 41.5 |

Rhagwelir y bydd y Gofyniad Ariannu Cyfalaf yn cynyddu'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf gan fod gwariant cyfalaf a ariennir gan ddyled yn fwy nag adnoddau a roddwyd naill ochr yn flaenorol ar gyfer ad-dalu dyledion.

## 3. Dyled Gros a'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf:

Er mwyn sicrhau dros y tymor canolig y bydd y ddyled at ddiben cyfalaf yn unig, bydd CHTh yn sicrhau nad yw dyled, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm y gofyniad ariannu cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon o unrhyw ofyniad ariannu cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flwyddyn ariannol nesaf. Mae hwn yn ddangosydd darbodusrwydd allweddol.

| Dyled | 31.03.20 Diwygiedig £miliwn | Amcangyfrif 31.03.21 £miliwn | Amcangyfrif 31.03.22 £miliwn | Amcangyfrif 31.03.23 £miliwn | Amcangyfrif 31.03.24 £miliwn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dyled Allanol** | 1.7 | 1.5 | 18.3 | 28.5 | 30.7 |

Ar hyn o bryd, yr ydym yn torri'r dangosydd cynghorus hwn gan y disgwylir i ddyled allanol fod yn uwch na'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol dros y tair blynedd nesaf. Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith bod y Gofyniad Ariannu Cyfalaf wedi'i ad-dalu o gronfeydd wrth gefn yn 2015/16. Gwnaed y penderfyniad oherwydd fe aseswyd ei fod yn fwy fanteisiol yn economaidd i ad-dalu'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf gan ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a oedd yn bodoli eisoes yn hytrach na gwneud y Taliad Refeniw Lleiaf i leihau ei falans bob blwyddyn.

### Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol

Mae'r ffin weithredol yn seiliedig ar amcangyfrif CHTh o'r sefyllfa fwyaf tebygol h.y. darbodus, ar gyfer dyledion allanol, yn hytrach na'r sefyllfa waethaf bosib. Mae'n uniongyrchol gysylltiedig ag amcangyfrifon CHTh o wariant cyfalaf, y gofynion cyllido cyfalaf a'r gofynion llif arian, ac mae'n declyn rheoli allweddol ar gyfer monitro trwy gydol y flwyddyn. Mae cyfrifoldebau hirdymor eraill yn cynnwys prydles cyllid, Menter Ariannu Breifat a chyfrifoldebau eraill nad ydynt yn ymwneud â benthyca ond yn ffurfio rhan o ddyled CHTh.

| Ffin Weithredol | 31.03.20 Diwygiedig £miliwn | Amcangyfrif 31.03.21 £miliwn | Amcangyfrif 31.03.22 £miliwn | Amcangyfrif 31.03.23 £miliwn | Amcangyfrif 31.03.24 £miliwn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Benthyca** | 20.0 | 20.0 | 30.0 | 35.0 | 40.0 |
| **Atebolrwydd Hirdymor Arall** | 1.0 | 1.0 | 1.0 | 1.0 | 1.0 |
| **Cyfanswm Dyledion** | **21.0** | **21.0** | **31.0** | **36.0** | **41.0** |

## 4. Y Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyledion Allanol

Y terfyn awdurdodedig yw’r terfyn benthyca fforddiadwy a bennir yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003. Dyma’r uchafswm y gall CHTh fod mewn dyled yn gyfreithiol. Mae’r terfyn awdurdodedig yn cynnig hyblygrwydd uwchlaw a thu hwnt i’r ffin weithredol ar gyfer symudiadau arian anarferol.

| Terfyn Awdurdodedig | Terfyn 2019/20 £miliwn | Terfyn 2020/21 £miliwn | Terfyn 2021/22 £miliwn | Terfyn 2022/23 £miliwn | Terfyn 2023/24 £miliwn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Benthyca** | 60.0 | 60.0 | 60.0 | 60.0 | 60.0 |
| **Atebolrwydd Hirdymor Arall** | 1.0 | 1.0 | 1.0 | 1.0 | 1.0 |
| **Cyfanswm Dyledion** | **61.0** | **61.0** | **61.0** | **61.0** | **61.0** |

## 5. Cymhareb Costau Cyllido i’r Llif Refeniw Net

Dangosydd fforddiadwyedd yw hwn ac mae’n amlygu goblygiadau refeniw unrhyw wariant cyfalaf cyfredol ac arfaethedig drwy adnabod cyfran y gyllideb refeniw sydd ei hangen i fodloni costau cyllido, llai yr incwm buddsoddi. Mae’r dangosydd hwn yn dangos costau cyllido yng nghyd-destun y gyllideb gyfan.

Mae hyn i fod i gynyddu dros y cyfnod oherwydd y gofyniad i fenthyca er mwyn cynnal y buddsoddiad sydd angen o ganlyniad i'r Rhaglen Gyfalaf. Gellir gweld effaith benthyca i ariannu'r rhaglen gyfalaf mewn blynyddoedd i ddod.

| | 2019/20 £mil | 2020/21 £mil | 2021/22 £mil | 2022/23 £mil | 2023/24 £mil |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau Ariannu (amcangyfrif) | 174 | 181 | 730 | 1,861 | 2,902 |
| Ffrwd Refeniw Net | 106,897 | 115,402 | 120,553 | 125,858 | 131,116 |
| **Cymhareb** | **0.16%** | **0.16%** | **0.61%** | **1.48%** | **2.21%** |

**Datganiad Lleiafswm Darpariaeth Refeniw Blynyddol 2020/21**

Lle mae'r CHTh yn ariannu gwariant cyfalaf trwy ddyled, rhaid iddo roi adnoddau o'r neilltu er mwyn ad-dalu'r ddyled mewn blynyddoedd i ddod. Mae'r swm a gaiff ei godi ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu dyled yn cael ei adnabod fel y Lleiafswm Darpariaeth Refeniw (MRP), er nad oes lleiafswm statudol wedi bod ers 2008. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn mynnu bod y CHTh yn rhoi ystyriaeth i Ganllaw Llywodraeth Cymru (LlC) ar y Lleiafswm Darpariaeth Refeniw.

Nod cyffredinol Canllaw LlC yw sicrhau y caiff y ddyled ei had-dalu dros gyfnod sydd naill ai'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion ynddo, neu, yn achos benthyca a gaiff ei gefnogi gan Grant Cynnal Refeniw'r Llywodraeth, dros gyfnod sy'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod sydd dan sylw wrth bennu'r grant.

Mae Canllaw LlC yn gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo Datganiad MRP bob blwyddyn, ac yn argymell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus fel MRP.

Er y rhagwelir y bydd y Gofynion Cyllido Cyfalaf yn aros ar sero am gwpwl o flynyddoedd (ac felly bydd yr MRP yn sero hefyd), bydd y polisi yn dal i gael ei ddefnyddio i amcangyfrif costau MRP a godir ar y cyfrif refeniw yn y dyfodol wrth bennu'r rhaglen gyfalaf a'r cynllun cyllido tymor canolig.

Dim ond yr opsiynau a argymhellir yn y canllawiau a gynhwysir yn y datganiad canlynol

**DATGANIAD LLEIAFSWM DARPARIAETH REFENIW (MRP) BLYNYDDOL**

Pennwyd y polisi canlynol gan y CHTh mewn perthynas â'r Lleiafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) ar gyfer 2020/21.

**Benthyca Darbodus - Dull Dibrisiant**

Rhaid i'r MRP fod yn hafal i'r ddarpariaeth sy'n ofynnol yn unol â chyfrifyddu dibrisiant ased y mae'r gwariant arno wedi cael ei ariannu drwy fenthyca darbodus neu drefniadau credyd digymorth. Mae hyn yn adlewyrchu bywyd defnyddiol yr ased, sydd wedi'i amcangyfrif ar 50 mlynedd mewn perthynas ag asedau Ystadau, 10 mlynedd mewn perthynas ag asedau isadeiledd TG (e.e. Ystafell Reoli, System Rheoli Cofnodion) a 5 mlynedd ar gyfer asedau TG eraill.

(a) Bydd yr MRP yn parhau i gael ei wneud yn flynyddol hyd nes bod swm cronnus y fath ddarpariaeth yn hafal i'r gwariant a ariannwyd yn wreiddiol.

(b) Pan waredir yr ased, ni fydd swm y dderbynneb gyfalaf yn cael ei roi yn y cyfrif refeniw a bydd CHTh yn cydymffurfio â'r gofynion arferol yn Neddf 2003 o ran defnyddio derbynebion cyfalaf.

(c) Lle mae canran y gwariant ar ased a ariannwyd drwy fenthyca darbodus neu drefniadau credyd digymorth yn llai na 100%, bydd yr MRP yn hafal i'r un canran o'r ddarpariaeth sy'n ofynnol dan gyfrifyddu dibrisiant.

**Menter Ariannu Breifat a Phrydlesi Cyllid**

Yn achos prydlesi cyllid a chytundebau menter ariannu breifat a restrir yn y fantolen, ystyrir bod y gofynion MRP wedi cael eu diwallu gan dâl sy'n hafal i elfen y rhent/gost a ddefnyddir i ddibrisio'r rhwymedigaeth yn y fantolen.